PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

# Pecyn Gwybodaeth

# Trysorydd



## Gwybodaeth Gefndirol

Plant yng Nghymru yw'r corff trosfwaol cenedlaethol ar gyfer sefydliadau ac unigolion sy'n gweithio gyda babanod, plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yng Nghymru. Rydym yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru ac eraill yng Nghymru i sicrhau lle blaenllaw i hawliau plant mewn polisïau a phenderfyniadau. I wneud hyn, rydym yn canolbwyntio ar sicrhau bod llais gan blant a phobl ifanc yng Nghymru, rydym yn brwydro dros wasanaethau teg a chynaliadwy, yn eirioli dros newid polisïau yng Nghymru ac yn cysylltu ac yn cynrychioli'r gwaith sy'n cael ei wneud gan ein haelodau.

Mae ein haelodau'n cynnwys unigolion a sefydliadau o'r sectorau gwirfoddol, statudol a phroffesiynol. Rydym hefyd yn gweithio'n uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc ar nifer o brosiectau ac mae gennym aelodaeth benodol ar gyfer ein cynulleidfa iau.

## Trysorydd

Ar ôl gwasanaethu am ddau dymor llawn, bydd ein Trysorydd presennol yn rhoi'r gorau i'w swydd yn ein cyfarfod cyffredinol blynyddol ym mis Tachwedd 2024 ac felly rydym yn chwilio am rywun profiadol i ymuno â'n Bwrdd Ymddiriedolwyr.

Mae'r Trysorydd yn gyfrifol am gefnogi Bwrdd yr Ymddiriedolwyr i oruchwylio'r gwaith o redeg yr elusen yn unol ag arfer da, ein dogfen lywodraethol a gofynion cyfreithiol. Mae'r Trysorydd yn cadeirio'r Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau Dynol, sy'n adrodd i Fwrdd llawn yr Ymddiriedolwyr, gan roi sylwadau ar y wybodaeth ariannol a gynhyrchir gan dîm Arwain y sefydliad, a rhoi arweiniad i'r Ymddiriedolwyr. Mae'r Trysorydd yn chwarae rôl bwysig wrth gynllunio'n strategol gyda'r Ymddiriedolwyr eraill, yn ogystal â rhoi cymorth a chyngor i'r Cyfarwyddwr Cyllid a Gweithrediadau, gan sicrhau bod gweithdrefnau, rheolaethau a mesurau addas ar waith. Mae'r Trysorydd hefyd yn darparu trosolwg o gyllid y sefydliad yn y cyfarfod cyffredinol blynyddol bob blwyddyn.

> *'Mae hwn yn gyfnod cyffrous i Plant yng Nghymru. Rydym yn datblygu ein strategaeth newydd, gan weithio i gael yr effaith fwyaf bosibl i helpu i sicrhau bod plant ledled Cymru yn cael arfer eu hawliau. Mae sefydlogrwydd a diogelwch ariannol yn hanfodol os ydym am gyflawni ein nodau. Mae gan ein trysorydd – gyda chefnogaeth ein tîm proffesiynol cadarn – rôl allweddol i'w chwarae. Ystyriwch ymuno â ni.'*
>
> *Helen Mary Jones, Cadeirydd, Plant yng Nghymru*

## Disgrifiad swydd

### Cyfrifoldebau

**1. Pwrpas Cyffredinol**

Yn ogystal â chyflawni dyletswyddau Ymddiriedolwr, mae'r Trysorydd yn cynnal trosolwg o faterion ariannol Plant yng Nghymru. Mae'r Trysorydd yn sicrhau bod gweithdrefnau, rheolaethau a mesurau ariannol effeithiol ac addas ar waith ac yn adrodd i'r Bwrdd yn rheolaidd am iechyd ariannol y sefydliad.

**2. Cyfrifoldebau Cyffredinol**

- Sicrhau bod y sefydliad yn cydymffurfio â'i ddogfen lywodraethol, cyfraith elusennau ac unrhyw ddeddfwriaeth neu reoliadau eraill perthnasol.
- Sicrhau bod y sefydliad yn dilyn ei amcanion fel y'u diffinnir yn ei ddogfen lywodraethol.
- Sicrhau bod y sefydliad yn defnyddio'i adnoddau yn unol â'i amcanion yn unig.
- Diogelu enw da a gwerthoedd y sefydliad.
- Sicrhau gweinyddiad effeithiol ac effeithlon y sefydliad.
- Sicrhau sefydlogrwydd ariannol y sefydliad.
- Diogelu a rheoli asedau yr elusen a sicrhau y caiff arian yr elusen ei fuddsoddi yn briodol.
- Yn ychwanegol at y dyletswyddau statudol uchod, dylai'r Trysorydd ddefnyddio unrhyw brofiad, gwybodaeth neu sgiliau penodol sydd ganddo i helpu'r Pwyllgor i wneud penderfyniadau ariannol cadarn.

**3. Dyletswyddau Ychwanegol**

- Cadeirio cyfarfodydd y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau Dynol; a chyfarfodydd cysylltiedig fel y dirprwyir gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr
- Goruchwylio a chraffu ar ddatblygiad cyllidebau blynyddol; gan gynnwys cyflwyno datganiadau ariannol, cyfrifon a chyllidebau lle bo angen
- Sicrhau bod gan yr elusen bolisi wrth gefn addas
- Sicrhau bod rheolaethau a gweithdrefnau cyfrifyddu priodol ar waith
- Cynghori ar oblygiadau ariannol cynlluniau strategol y sefydliad
- Sicrhau nad oes unrhyw wrthdaro rhwng unrhyw fuddsoddiad a ddelir a nodau ac amcanion yr elusen

- Sicrhau bod yr elusen yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth
- Sicrhau y caiff y cyfrifon eu paratoi mewn da bryd at ddibenion archwilio ac y caiff unrhyw argymhellion eu rhoi ar waith
- Rhoi gwybod i'r Pwyllgor am ei ddyletswyddau a'i gyfrifoldebau ariannol
- Cyfrannu at strategaeth ariannu'r sefydliad
- Rhoi cyflwyniad ffurfiol o'r cyfrifon yn y cyfarfod cyffredinol blynyddol a thynnu sylw at bwyntiau pwysig mewn ffordd drefnus sy'n hawdd ei deall i'r Pwyllgor

## Manyleb Person

### Gwybodaeth/Profiad

- O leiaf 3 blynedd o brofiad o ddadansoddi ariannol a chyllidebu.
- Cyfrifydd cwbl gymwys neu rannol, neu â phrofiad cyfatebol.
- Profiad a dealltwriaeth o reoliadau a chydymffurfiaeth o ran adroddiadau ariannol o dan SORP Elusennau, gan gynnwys TAW elusennau.
- Mae profiad anweithredol neu ymddiriedolwr ar fwrdd rheoli neu gorff llywodraethu tebyg sefydliad o faint tebyg yn ddymunol

### Sgiliau, galluoedd a rhinweddau personol

- Ymrwymiad i nodau ac amcanion Plant yng Nghymru – er nad yw gwybodaeth fanwl o hawliau plant yn ofyniad ar gyfer rôl y trysorydd, rydym yn chwilio am ymgeisydd a fydd yn dod ag arbenigedd ariannol ac angerdd dros wella canlyniadau i fabanod, plant a phobl ifanc yng Nghymru.
- Barn, uniondeb, gwrthrychedd ac atebolrwydd unigol da i'r sefydliad
- Deall a derbyn dyletswyddau, cyfrifoldebau a rhwymedigaethau cyfreithiol yr ymddiriedolaeth
- Gallu i gyfrannu'n effeithiol at y broses o wneud penderfyniadau
- Y gallu i weithio fel rhan o dîm bach.
- Parodrwydd i dreulio'r amser a'r ymdrech angenrheidiol
- Parodrwydd a'r gallu i fod ar gael i'r staff ac aelodau o'r pwyllgor ar adegau ar gyfer cefnogaeth, cyngor ac ymholiadau ar sail ad hoc.

### Gofynion

Er mwyn bod yn Ymddiriedolwr, dylai Trysorydd Plant yng Nghymru naill ai fod yn aelod unigol neu'n aelod corfforaethol o Plant yng Nghymru. Rydym yn cynnig

aelodaeth unigol o Plant yng Nghymru i ymddiriedolwyr newydd nad oes ganddynt aelodaeth bresennol.

## Gwybodaeth Bellach

Ni delir cyflog ar gyfer rôl y Trysorydd, ond gellir hawlio treuliau teithio. Ar hyn o bryd, mae cyfarfodydd ffurfiol Bwrdd yr Ymddiriedolwyr a Phwyllgorau perthnasol yn cael eu cynnal bob chwarter a dylai'r Trysorydd ddisgwyl ymrwymo i o leiaf 9 cyfarfod y flwyddyn. Mae'r rhan fwyaf o gyfarfodydd ar-lein ond efallai y caiff rhai sesiynau wyneb yn wyneb eu cynnal yng Nghaerdydd.

Bydd disgwyl i'r ymgeisydd llwyddiannus arwyddo Cod Ymddygiad yr Ymddiriedolwyr a chwblhau archwiliadau gorfodol i fod yn Ymddiriedolwr, gan gynnwys archwiliad DBS manwl.

## Sut i ymgeisio

Dylid mynegi diddordeb drwy anfon datganiad eglurhaol (dim mwy na dwy ochr A4) ynghyd â CV i vacancies@childreninwales.org.uk. Caiff ceisiadau eu hystyried wrth iddynt ddod i law ac rydym yn gobeithio y bydd ein Trysorydd newydd yn dechrau yn ei rôl erbyn ein cyfarfod cyffredinol blynyddol ym mis Tachwedd.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â Caroline Taylor (caroline.taylor@childreninwales.org.uk) yn gyntaf.

**Gweledigaeth:**

*Adeiladu Cymru lle mae holl hawliau pob plentyn a pherson ifanc yn cael eu cyflawni.*

**Ein Cenhadaeth**:

Plant yng Nghymru yw'r sefydliad aelodaeth cynrychioliadol cenedlaethol ar gyfer unigolion a sefydliadau o bob sector sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd yng Nghymru. Daw ein haelodaeth o'r sectorau cyhoeddus, elusennol/di-elw ac annibynnol yng Nghymru. Bydd ein gwaith yn cael ei danategu gan ddull cydweithredol, sy'n hwyluso cyfleoedd i'n haelodau, plant a phobl ifanc.

Byddwn yn gweithio tuag at ein gweledigaeth mewn cydweithrediad â'n haelodau drwy:

- Ymgyrchu dros fabwysiadu a gweithredu llawn Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ar bob lefel o gymdeithas Cymru.
- Herio anghydraddoldebau a hyrwyddo tegwch i holl blant a phobl ifanc Cymru.
- Dod â llais cyfunol at ei gilydd ar gyfer newid trawsnewidiol ar lefel polisi yng Nghymru.
- Hyrwyddo a chefnogi cyfranogiad plant a phobl ifanc o fewn strwythurau penderfyniadau ar bob lefel o lywodraeth yng Nghymru.
- Darparu llwyfan ar gyfer rhannu arfer arloesol ledled Cymru.
- Eirioli dros y sector(au) plant ar feysydd blaenoriaeth.
- Darparu cyfleoedd dysgu a datblygu ar gyfer y gweithlu proffesiynol plant traws-sector.
- Ymgymryd ag ymchwil, a'i lledaenu ar draws ein haelodaeth.